**Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 20 Mawrth 2002 |
| Amser: | 9.30am |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| Teitl: | Cylch Gorchwyl Ehangach y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol - y Tu Hwnt i Ewrop |

**Diben**

1. Yn dilyn diwygio'r Rheolau Sefydlog ym mis Hydref 2001, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi'i ehangu i gynnwys "materion allanol".
2. Mae'r papur hwn yn rhoi braslun o weithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'i agenda ryngwladol y tu hwnt i Ewrop a'i fwriad yw helpu'r Pwyllgor wrth ystyried ei gylch gorchwyl ehangach. Nid ymgais i ddarparu adroddiad cynhwysfawr ar ei holl weithgareddau ydyw.
3. Gellir rhannu'r gweithgareddau yn bedwar categori eang; gweithgareddau hyrwyddo, digwyddiadau a gynhelir dramor, ymweliadau mewnol a chysylltiadau rhyngwladol.

**Gweithgareddau hyrwyddo**

4. *Wales World Nation* yw'r pecyn marchnata a chyfathrebu a gafodd ei lansio ym mis Medi 2001. Fe'i cynlluniwyd i gyflwyno delwedd ffafriol a hawdd ei hadnabod i Gymru dramor sy'n defnyddio dull positif, blaengar a modern o weithredu ochr yn ochr â delweddau traddodiadol. Mae'n cynnwys gwefan, pecyn newyddiadurwyr a CD-ROM, llyfryn gwybodaeth ac amrywiaeth o ddeunyddiau hyrwyddo ac mae datblygiadau eraill ar y gweill. Mae wedi derbyn adborth positif gan Lysgenhadon ac eraill ledled y byd.
5. Yn ogystal â'r deunyddiau marchnata a hyrwyddo, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu delwedd frandio i Gymru. Mae cwmni sydd ag enw da ar gyfer 'brandio' gwledydd bychain wedi cael ei gomisiynu i gynnal ymchwil ar sut y caiff Cymru ei gweld yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol ac i ddatblygu brand positif i Gymru. Cynhaliwyd y gwaith drwy ymgynghori â'r CCNC a bydd ei ganfyddiadau ar gael cyn bo hir.
6. Ochr yn ochr â'r ymchwil ar frandio, rhoddir ystyriaeth i Borth digidol i Gymru Gyfan a fyddai'n galluogi ymwelwyr â Chymru i gael mynediad eang i wybodaeth ar gyrff allweddol Cymru, drwy gyfrwng gwefannau'r Cynulliad ac unrhyw un o'r CCNC. Mae astudiaeth gwmpasu bellach ar y

gweill.

7. Bydd y Gweithgareddau Hyrwyddo yn cynnwys canolfannau Cymru Rhyngwladol, sef datblygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Y bwriad yw adeiladu ar brif weithgareddau busnes Masnach Cymru Rhyngwladol ac Awdurdod Datblygu Cymru a'u ddefnyddio fel llwyfan i gynyddu presenoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru dramor.
8. Mae grp swyddogol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r CCNC a sefydliadau allweddol eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Canolfan Ewropeaidd Cymru a'r Cyngor Prydeinig a Chymdeithas Cysylltu Rhyngwladol Addysg Uwch Cymru (WHEILA) yn cyfarfod ddwywaith y mis i sicrhau dull gweithredu sydd wedi'i gydlynu a'i gyd-drefnu ar gyfer codi proffil rhyngwladol Cymru.

**Digwyddiadau a Gynhelir Dramor**

9. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio ag eraill, ee Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, i hyrwyddo Cymru dramor drwy gyfrwng digwyddiadau pwysig o ansawdd uchel. Ymysg y rhain mae: Wythnos Cymru yn Nghaliffornia, mis Awst 2001; Arddangosfa am Gymru yn Siop Adrannol Hankyu yn Osaka, Siapan, mis Tachwedd 2001; Penwythnos Cymru yn Efrog Newydd, mis Mawrth 2002 a'r Wyl Ryng-Geltaidd a gynhelir yn Lorient ym mis Awst 2002 pan y canolbwyntir yn arbennig ar Gymru.
10. Yn aml, trefnir bod digwyddiadau tramor yn cael eu cynnal ar yr un pryd â Chenadaethau Masnach Cymru Rhyngwladol a gallai'r rhaglenni gynnwys digwyddiad twristaidd wedi'i drefnu gan y Bwrdd Croeso ac elfen o fuddsoddi mewnol gan y WDA.
11. Y nod yw datblygu rhaglen dreigl o ddigwyddiadau sy'n para 3-5 mlynedd, drwy gydweithio a'r CCNC ac eraill i roi Cymru ar y map rhyngwladol. Penderfynir ar y lleoliadau gan y marchnadoedd a'r amcanion sydd ganddynt yn gyffredin a chan strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu a chynnal cysylltiadau rhyngwladol.

**Ymweliadau Mewnol**

12. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn derbyn ceisiadau rheolaidd gan ddarpar ymwelwyr - yn uniongyrchol a thrwy gyfrwng y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO). Ers datganoli mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'n sylweddol ac maent yn debygol o barhau i gynyddu. Swyddfa'r Llywydd sy'n delio ag ymwelwyr sydd am ddysgu mwy am y sefydliad gwleidyddol. Caiff yr ymweliadau gan Lywodraethau â'r Llywodraeth neu ymweliadau'n ymwneud â pholisi eu trefnu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chaiff y rhaglenni eu teilwra'n arbennig ar gyfer y diddordeb arbennig a nodwyd gan yr ymwelwyr, lle bo hynny'n bosibl.
13. Y nod yw bod yn ymatebol ac yn groesawgar wrth ystyried ceisiadau gan ddarpar ymwelwyr. Fodd bynnag, mae angen ariannu pob ymweliad a dylid ystyried hynny yng nghyd-destun y manteision posibl i Gymru - a ydynt yn fanteision a fydd yn digwydd ar unwaith neu yn y tymor hir. Mae'r cynnydd mewn gweithgareddau o'r fath yn galw am ddull gweithredu sydd wedi'i ganolbwyntio a'i gydlynu ac sy'n cydfynd â strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu a chynnal cysylltiadau rhyngwladol.

**Cysylltiadau Rhyngwladol**

14. Ers 1990 mae Cymru wedi bod yn datblygu cysylltiadau â rhanbarthau yn Ewrop, Canada, Awstralia a Siapan. Mae gennym gysylltiadau â'r pedwar rhanbarth sbardun, sef ardaloedd Baden-Wurttemberg (yr Almaen), Catalunya (Sbaen), Lombardi (yr Eidal) a Rhone-Alpes (Ffrainc); yn ogystal ag Oita (Siapan), De Cymru Newydd (Awstralia), Ontario (Canada) a Chubut (Patagonia). Ceir cytundeb ffurfiol ar gyfer pob un ohonynt - Memoranda Cyd-ddealltwriaeth - ag eithrio'r cysylltiadau ag ardaloedd Oita a Rhone-Alpes. Mae cytundebau eraill yn bodoli ar sail diddordebau penodol ee cytundeb a lofnodwyd yn ddiweddar â Chiwba ar gysylltiadau rhwng sefydliadau Addysg Uwch. Mae statws presennol y cysylltiadau hyn a lefel y gweithgareddau y tu ôl iddynt yn amrywio. Yn ogystal, datblygwyd nifer o gysylltiadau llai ffurfiol ar sail meysydd a oedd o ddiddordeb arbennig.
15. Mae'r broses o ddatganoli a sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynyddu'r diddordeb yng Nghymru. Derbyniwyd ceisiadau eraill gan nifer o ranbarthau yn Ewrop a oedd yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau â Chymru, er nad oes yr un ohonynt wedi datblygu i fod yn gytundeb ffurfiol eto.
16. Mae sefydlu cytundebau ffurfiol yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau prin ac yn golygu lefel uchel o ymrwymiad ar draws holl swyddogaethau'r Cynulliad os ydynt i ddatblygu i fod yn fwy na chyfres o ddogfennau ffurfiol. Mae'n hanfodol felly ein bod yn ystyried y manteision a allai ddeillio o gytundebau newydd yn ofalus, ac os oes angen, ein bod yn barod i fod yn ddethol o ran pa bartneriaethau a ddewisir gennym.
17. Mae gwaith bellach ar y gweill i gasglu gwybodaeth ar y cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol sy'n bodoli ar draws yr holl sectorau yng Nghymru.